

## **CYNGOR CYMUNED LLANDDAROG COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion o gyfarfod Blynyddol a chyfarfod mis Mai Cyngor Cymuned Llanddarog a gynhaliwyd ar y 9/5/2012 yn Festri Porthyrhyd.**

**Minutes of the Annual meeting and May meeting of Llanddarog Community Council held on the 9/5/2012 at the Vestry Porthyrhyd**

### **Presennol / Present:**

#### **Cynghorwyr / Councillors**

Cllr S Evans, Cllr Terry Jones, , Cllr Huw Voyle Williams, Cllr Roy Owen  
Cllr R Jones , Cllr John Howells, , Cllr Vilna ,Thomas, R Newell, Cllr  
WynEvans , Cllr I Thomas.

Croeshawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod a Llongyfarch pob aelod ar gael eu hethol fel cynghorwyr Cymuned ,hefyd rhoddodd longyfarchiadau i'r Cyng Wyn Evans am gael êi ail ethol fel Cynghorwr Sir. Rhoddodd groeso i'r Cyng Roy Owen fel aelod newydd a dymunodd yn dda iddo.

Cyn dechrau'r cyfarfod darllenodd ac arwyddodd pob cynghorwr y datganiad derbyn swydd / Before the start of the meeting all members read and signed the declaration of acceptance of office .

Hefyd rhoddodd y clerc ffurflen rhestru diddordebau i bob cynghorwr i'w llenwi ./ The clerk also gave all members a register of interest form to complete

### **1.Ymddiheuriadau / Apologies:**

Ni Dderbyniwyd ymddiheuriad / No Apologies were received

### **2.Adroddiad y Cadeirydd. / Chairmans Report.**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Is Gadeirydd am ei help a'i gefnogaeth yn ystod y flwyddyn ac i'r aelodau, y clerc a'r cyfieithydd am eu gwaith di flino . Ar ddiwedd y flwyddyn roedd dau aelod wedi ymddeol a diolchodd i'r cyn Gynghorwr David Webb am ei gyfraniad ac hefyd i'r cyn Gynhorwraig Marian Williams am ei gwasanaeth i'r cyngor ar gymuned dros bron deugain mlynedd.

Roddodd crynodeb o'i waith dros y cyngor yn ystod y flwyddyn a diolchodd am y fraint a'r cyfle i arwain y cyngor.

The Chairman thanked the Vice Chairman for his help and support during the year and also all members ,the clerk and the translator for their work and support during his year of office. He also thanked members who had retired at the end of the council year namely Cllr David Webb and Cllr Marian Williams . Cllr Marian Williams had served the community for nearly forty years. The chairman gave a brief overview of his work on behalf of the council

during the year and thanked the council for the privilege and honour of representing the community as their Chairman.

### **3.0 Ethol Cadeirydd 2012/13 ac arwyddo datganiad derbyn y swydd / Election of Chairman 2012/13 and sign the declaration of acceptance of Office.**

Cynigiwyd y Cyng Huw V Williams i fod yn Gadeirydd 2012/13 gan y Cyng Selwyn Evans ac eiliodd y Cyng Terry Jones. Etholwyd y Cyng Huw V Williams yn unfrydol fel Cadeirydd 2012/13. / Cllr Huw V Williams was proposed as Chairman by Cllr Selwyn Evans and seconded by Terry Jones. Cllr Huw V Williams was unanimously elected as the chair person for 2012/13.

Wrth dderbyn y swydd diolchodd y Cyng. Huw V Williams i'r Cyngor am ei ethol fel Cadeirydd ac am yr anrhydedd o fod yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanddarog unwaith eto  
Roedd yn llawn ymwybodol o ddyletswyddau'r swydd ond yn hyderus y gallai wynebu'r dyletswyddau drwy gyd weithrediad yr aelodau.

Diolchodd ar rhan y cyngor i'r Cyng. Selwyn Evans am ei waith di flino yn ystod y flwyddyn ac fe ddarllenodd ac arwyddodd datganiad y Swydd ./

Cllr Huw V Williams thanked the Council for the honour of being elected once again as the Chairman of Llanddarog community council, he was well aware of the responsibilities of the post but was confident that he could cope with the assistance of his fellow members.  
He thanked Cllr. Selwyn Evans for his untiring work during his year of Office and duly read and signed the declaration of office.

### **4.0. Ethol Is- Gadeirydd/ Election of a Vice Chairman.**

Cynigwyd y Cyng Vilna Thomas gan y Cyng Wyn Evans ac eiliwyd gan y Cyng Robert Jones. Derbyniodd yr aelodau y cynnig yn unfrydol a cafodd y Cyng Vilna Thomas ei hethol yn Is Gadeirydd .

Diolchodd y Cyng Vina Thomas i'r aelodau am yr anrhydedd.  
/ Cllr Vilna Thomas was proposed by Cllr Wyn Evans and seconded by Cllr Robert Jones. The council agreed unanimously to the proposal and Cllr Vilna Thomas was duly elected as Vice Chairman.

Cllr Vilna Thomas thanked the members for the Honour.

### **5.0 Mabwysiadu rheolau sefydlog / Adoption of standing orders**

Cytunwyd i fabwysiadu addasiad y cyngor o fodel NALC fel rheolau sefydlog y Cyngor./

It was agreed to adopt the councils adaption of the NALC 'Model for standing orders and chairmanship' .

#### **6.0 I benodi cynrychiolwyr i'r Is bwyllgor. / Appointment of Sub committee members.**

Cytunwyd mai aelodau sefydlog yr Is Bwyllgor fydd y Cadeirydd, yr Is Gadeirydd a'r cyn Gadeirydd . Cytunwyd hefyd, pan fydd mater lleol yn cael ei drafod i benodi un aelod arall o'r ardal hynny. / It was agreed that the standing members of the sub committee should be the Chairman, the Vice Chairman and the Past Chairman. It was also agreed to appoint one additional member when a local issue was being discussed.

#### **7.0 I benodi cynrychiolydd Un Llais Cymru. / To appoint a One Voice Wales representative.**

Cytunodd y Cyngor yn unfrydol i benodi'r Cyng Huw Voyle Williams yn gynrychiolydd Un Llais Cymru ac hefyd i benodi y Cyng Robert Jones fel eilydd. / The Council agreed unanimously to appoint Cllr Huw Voyle Williams as the 'One Voice Wales' representative and to appoint Cllr Robert Jones as the second representative

#### **8.0. Cyrff Llywodraethol ysgolion./ School Governing bodies**

Cytunwyd i benodi y Cyng Terry Jones fel Llywodraethwr Ysgol Llanddarog ./ It was agreed to appointed Cllr Terry Jones as a Governor of Llanddarog school.

#### **9.0 I benodi cynrychiolydd Grŵp Cyngorau'r Gwendraeth. / To appoint a Gwendraeth Group of Community Council representative**

Cytunwyd i benodi y Cyng Huw V Williams / It was agreed to appoint Cllr Huw V Williams

#### **10.0 Archwiliwr Mewnol / Internal Auditor.**

Cytunwyd i ofyn i Mr Lewis Jones i wneud y gwaith o "Archwiliwr Mewnol" It was agreed to ask Mr Lewis Jones to undertake the work of "Internal Auditor"

#### **11.0 Swyddog Ariannol Cyfrifol / Responsible Financial Officer.**

Cytunwyd fod y Clerc i wneud y gwaith o "Swyddog Cyfrifol Ariannol" / It was agreed that the role of "Responsible Financial Officer" would be undertaken by the clerk.

#### **12. 0 Arholwr Ariannol Mewnol / Internal Financial Examiner.**

Cytunwyd mai'r Cyng R Jones fydd yn gwneud y gwaith o "Arholwr Ariannol Mewnol" Cytunwyd hefyd fod y gwaith yn cynnwys edrych ar bolisiâu'r cyngor a bod y Cyng. Robert Jones yn gwneud y gwaith hyn hefyd gyda'r clerch.

It was agreed that Cllr R Jones will undertake the work of "Internal Financial Examiner"

It was also agreed that the work should also include the review of the councils polices and that Cllr Jones should also undertake this work with the clerk.

### **13.0 Adroddiad Lwfans y Cadeirydd 20011/12**

Dywedodd y Cyn Gadeirydd fod y lwfans wedi bod yn ddigon iddo i gynnal ei waith ar rhan y cyngor./ The past Chairman informed that the allowance had been sufficient to undertake his duties on behalf of the council.

### **14.0. Lwfans y Cadeirydd 2012/13. / Chairman's allowance 2012/13**

Cytunwyd gan bawb i adael y lwfans ar yr un maint â llynedd sef £250./ It was agreed by all members that the allowance should remain at £250. Cytunwyd hefyd i ail edrych ar y mater os fydd angen yn ystod y flwyddyn . / It was also decided that the matter would be relooked at during the year if this proved necessary .

### **15. Diwrnod,ac amser y cyfarfodydd / Date and time of meeting**

Cytunwyd i gynnal y cyfarfodydd ar yr ail ddydd Mercher o'r Mis am 7.30yh/ It was agreed that the meetings should be held on the second Wednesday of the Month at 7.30pm.

**Yn dilyn y cyfarfod blynyddol cynhaliwyd cyfarfod mis Mai gyda'r Cynq.Huw V Williams yn y gadair**

**The scheduled May meeting followed on from the Annual meeting with Cllr. Huw V Williams in the chair.**

### **1.0 Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod diwethaf / Confirmation of the accuracy of the minutes of the last neeting.**

Cynigiodd , y Cyng Robert Jones ac eiliwyd gan, Cyng Vilna Thomas a cytunodd pob aelod fod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir. / It was proposed by Cllr Robert Jones and seconded by Cllr Vilna Thomas and all members agreed that the minutes of the last meeting were correct.

### **2.0 Datganiadau o fuddiannau personol / Declaration of personal interest.**

Derbyniwyd datganiad o ddiddordeb gan y Cyng Wyn Evans am eitem 11 (Cynllun Datblygu Lleol). Cyn y drafodaeth ar yr eitem gadawodd y Cyng Wyn Evans yr ystafell a ni gymerodd unrhyw rhan yn y drafodaeth na'r penderfyniad / A declaration of interest was received from Cllr Wyn Evans with regard to item 11 (Local Development Plan) . Before the discussion on

the item Cllr Wyn Evans left the room and took no part in the discussion or decision making process.

### **3.0 Materion yn Codi o'r cyfarfod diwethaf / Matters arising from the previous meeting**

#### **a . Lle Chwarae Is y Llan Play Area**

Mae Plant Dewi wedi cael gwybod am benderfyniad y cyngor yn y cyfarfod diwethaf i ddim mynd ar mater ymhellach ac maent wedi cael ei dioch am ei help ai hymdrech / Plant Dewi have been informed of the council's decision not to pursue the matter any further and have been thanked for their effort.

b. Roedd y clerc wedi gosod gwybodaeth yn y byrddau gwybodaeth ac yn y Swyddfeydd Post i rhoi gwybod i rhieni am y broses o dderbyn Cwpan Jubili. / The clerk had placed notices in the community boards and post offices to inform parents of the procedure for receiving a jubilee mug

c. Roedd y clerc wedi gofyn i'r cyngor Sir am Arwyddion Baw Cwn Rhwng Llanddarog a Porthyrhyd ac hefyd wedi rhoi gwybod iddynt fod y perchnogion yn mynd a'u cwn am dro rhwng 5-6 yr hwyr. Roedd dim ateb wedi ei dderbyn . / The clerk had made a request to the County Council for Dog Fouling signs to be located between Llanddarog and Porthyrhyd . The County council were further informed that the fouling seems to take place between 5 -6 pm. To date no reply had been received

d. Roedd y clerc wedi gofyn i'r Cyngor Sir am Bin Sbwriel ger y Kiosk yn Is y Llan . Nid oedd ateb wedi ei dderbyn ./ A request was made by the the clerk to the County for a dust bin to be located near the Kiosk at Is y Llan. No reply had been received.

e. Yn y cyfarfod diwethaf derbyniwyd gwybodaeth bod traffic y Cwar yn defnyddio'r heolydd llawer mwy aml ar y pen wythnos ac yn hwyrach yn y nos na'r arfer . / Council were informed at the last meeting that Quarry traffic were using the roads more often on Week Ends and late at night . Dywedodd y Cyng I Thomas a'r Cyng Roy Owen eu bod wedi codi y mater yn y Cyfarfod Cysylltu ac wedi derbyn ateb mae dim ond dros dro y byddau hyn yn digwydd. / Cllr I Thomas and Cllr Roy Owen informed council that they had raised the matter at the last liaison meeting and were informed that this working practice was on a temporary basis only.

f. Cais Cynllunio W/25936 Storfa trawsglwyddo Llaeth ym Mhantffynnon, Llanddarog/ Planning Application W/25936 for a milk transfer storage depot at Pantffynnon ,Llanddarog

Yn dilyn y gofyniad yn y cyfarfod diwethaf roedd y clerc wedi ysgrifennu at yr adran Gynllunio i nodi pryder y cyngor cymuned ac i wrthwynebu y cais.

Roedd y clerc wedi gofyn hefyd am yr hawl i'r cyngor cymuned siarad yn y cyfarfod./ Further to the request at the last meeting the clerk had written to Carmarthenshire County Council's Planning Dept to express the community Council's concern and objection to the proposed application. The clerk had also made a request for the council to speak at the meeting.

**g.** W/26328 demolition of existing school building and construction of four dwellings (2 pairs of semi detached) at Bwthyn yr Ysgol ,Mynyddcerrig – Roedd y clerc wedi ysgrifennu at yr adran gynllunio i wrthwynebu y cais ac i ofyn i'r cyngor Sir i werthu adeilad yr ysgol fel tŷ preswyl er mwyn cadw'r adeilad . Gofynnodd y clerc hefyd am hawl l'r cyngor siarad yn y cyfarfod cynllunio ar y mater hwn./ The clerk had written to the Planning Dept CCC to object to the demolition of the building and request that the school be sold for residential purposes which would allow the building to remain. A request to speak at the appropriate planning committee will also be made.

#### **h. Help ariannol i Elusennau a mudiadau / Financial assistance to charities and organisations**

Awgrymodd y cyn Gadeirydd bod yr elusennau isod yn derbyn help ariannol wrth y cyngor. / The past Chairman proposed that the following charities should receive financial assistance from the Council.

Plant Dewi, Eisteddfod Genedlaethol, Marie Curie Cancer Care a Clwb Ffermwyr Ifanc Caerfyrddin.

Bydd £50 yr un yn cael ei rhoi / £50 each will be given

Derbynodd y cyngor yr awgrymiadau. /The council agreed to the proposals

**i.** Roedd y clerc wedi danfon llythyr o ddiolch am ei wasanaeth dros y gymuned i Mr Brian Evans cyn Brif Athro Ysgol Llanddarog ac hefyd wedi Llongyfarch y Brif Athrawes Newydd / The clerk had written to Mr Brian Evans the former Head master of Llanddarog school for his service to the community and had also written to the new Head Mistress to congratulate her on her appointment.

#### **4.0 Gohebiaeth/ Correspondence**

**1. Tarmac** yn danfon copi o gofnodion y cyfarfod Cysylltu 30 Ionawr 2012. Bydd y Cyfarfod nesaf ar y 30 Ebrill 2012 / send a copy of the Minutes of the Local Liaison Meeting held on the 30<sup>th</sup> January 2012. The next meeting will be on the 30<sup>th</sup> April 2012.

**2. CCC Planning Dept** – yn danfon sylwadau ar ddyrannu safleoedd amgen fel rhan o ymgynghori'r Cynllun Datblygu / send the Alternative Site 'Allocation Representations' as part of the Local Development Plan consultation .

Maent yn tynnu sylw mai safleoedd a gyflwynwyd gan ymatebwyr l'r fersiwn adneuol o'r CDLI yw'r safleoedd ac nid cynigion y Cyngor Sir ydynt.

Maent yn cynnwys CD or cyflwyniadau .

Bydd y cyfnod ymgynghori yn parhau am 6 wythnos o'r 25 Ebrill 2012.

Rhaid i'r sylwadau gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig cyn y dyddiad cau ar gyfer sylwadau sef 4.30pm ar 8 Mehefin 2012. Mae'r gofrestr safleoedd i'w gael ar wefan y cyngor ac ym mhob llyfrgell y Sir./

The sites are those submitted by respondents to the deposit LDP and are not the Council's proposals. They enclose a CD of the submissions and associated documents.

The consultation period lasts for 6 weeks commencing on the 25<sup>th</sup> April 2012. Any representation must be received before 4.30pm on the 8<sup>th</sup> June 2012.

The information is also available on Carmarthenshire County Council's website and for public inspection in all the county libraries.

### **See also separate discussion item 11 below**

**3. Aon** cwmni yswiriant y cyngor yn gwahodd y cyngor i adnewyddu ei polisi o 1/6/2012. Cost adnewyddu yw **£984.81** y flwyddyn yn cynnwys costau. / the council's insurers invite the council to renew the policy from 1<sup>st</sup> June 2012. The renewal cost is **£984.81** inc admin fee and taxes. Cofynwyd i'r clerch i adnewyddu y polisi./ The clerk was asked to renew the policy.

**4. CCC** yn danfon canlyniad yr etholiad diwrthwynebiad y cyngor cymuned ac yn rhoi gwybodaeth gall yr aelodau etholedig gyfethol unrhyw berson neu bersonau i lenwi'r seddau gwag. Bydd yn rhaid i'r Cyngor Cymuned weithredu'r awdurdod hwn o fewn 35 diwrnod ar ol y diwrnod y byddai person a etholwyd wedi dechrau ei swydd ,h.y. Dydd lau 7fed Mehefin 2012. Mae'r Cyngor Cymuned newydd yn dod I rym o'r pedwerydd diwrnod ar ôl Dydd lau 3 Mai ac felly mae gan y cyngor hyd at dydd lau 7 Mehefin 2012 I gyfethol pobl addas. Dylid rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r Swyddog Canlyniadau a rhoi enwau a chyferiad personau cyn gynteg ag y maent wedi dechrau eu swydd fel Cyngorydd Cymuned. Os na lwydda'r cyngor I lenwi'r seddau gwag ,yna gall y Swyddog Canlyniadau weithredu ei awdurdod i orchymyn etholiad newydd i lenwi'r seddau ar ol dydd lau, 7 Mehefin. / send the results of the uncontested election for the Community Council and inform that where an insufficient number of persons are nominated to fill the vacancies in respect to an ordinary election then, provided the number of nominations constitute a quorum ,those members may co-opt any person to fill the vacancy or vacancies which remain unfilled.

However the council must exercise the power within 35 days from the day by which a person elected would have taken office , ie Thursday 7<sup>th</sup> June 2012.

The names and addresses of the persons should be notified to the Returning officer as soon as they have taken up their office as Community Councillors .

If this is not done a fresh election process to fill the vacancies will commence after the 7<sup>th</sup> June 2012.

**5. CCC** yn danfon llyfryn gwybodaeth am Chwyn Ymledol 'Arweiniad I adnabod ,canfod a rheoli chwyn ymledol. / send a booklet on invasive weeds ' A guide to identifying, locating and controlling invasive weeds'

## 5. 0 End of Year Financial Report

Adroddiad Ariannol diwedd Blwyddyn 2011/2012 a cadarnhau/cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol o'r Cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethol Blynyddol. /

End of year financial report 2011/12, the internal examinations report and the approval /certification of the 2011/12 Annual Return Statement of Accounts and Annual Governance Statement certification .

The internal financial examiner Cllr Robert Jones informed members he had examined the accounts throughout the year and that he was glad to report there had been no matters that needed to be brought to the council's attention. The final end of year accounts examination was carried out and completed on the 8/5/12.

The examination of accounts was carried out by checking and cross referencing the bank statements of both the current account and the business reserve account, invoices, receipts and computer cash spread sheet. They had also examined the receipts book, the PAYE and VAT returns. All payment and receipts were compared with the Budget Plan.

The end of year financial examination included an examination of the end of year balance sheet. The final budget plan showed an expenditure above the income received . This was due in the main to the expenditure on the Jubilee Mugs and the payment of 2010/11 street lighting costs at the start of this financial year .

The council thanked the internal financial examiner and the clerk for their work throughout the year.

Roedd y cler/c Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi rhoi ymlaen llaw adroddiad mantolen llawn 2011/12 er mwyn i'r aelodau gael cyfle i edrych yn fanwl ar y cyfrifon a chodi unrhyw gwestiwn am danynt yn y cyfarfod . Ar ôl trafodaeth a cwestiynau penderfynodd y cyngor yn unfrydol dderbyn adroddiad Mantolen Ariannol 2011/12.

The clerk/Financial officer gave a copy of the 2011/12 balance sheet report to all members at the meeting for information. Members were allowed time by the chairman to examine the details and raise any questions at the meeting. After a brief discussion and a question and answer session members unanimously approved the financial report.

Yn dilyn yr uchod derbyniodd yr aelodau i gyd gopi wedi ei llanw o Adran 1 'Datganiad Cyfrifon' sydd yn rhan o'r Datganiad Blynyddol (a dderbyniwyd wrth BDO Stoy) . Roedd y ffigurau i gyd wedi cael ei cymryd o gyfrifon diwedd y flwyddyn 2011/12. Rhoddodd y cler eglurhad o gynnwys y Datganiad Cyfrifon Adran1 ac ar ôl trafodaeth penderfynodd y cyngor gymeradwyo'r ddogfen. Llofnodwyd y Datganiad Cyfrifon gan y Cadeirydd y Cyng Huw V Williams a'r cler.

Derbyniodd yr aelodau hefyd gopi ymlaen llaw o Adran 2 'Datganiad Llywodraethu Blynyddol' sydd hefyd yn rhan o'r datganiad Blynyddol.



Darllenodd y clerc bocs 1-9 o ddogfen Adran 2 y Datganiad Llywodraethol Blynyddol yn ei gyfanrwydd a rhoddodd eglurhad i'r cyngor . Ar ôl trafodaeth cytunodd y cyngor fod gofyniad yr adroddiadau wedi cael ei cyflawni gan y cyngor ac felly atebwyd 'Do' i bocs rhif 1-8 . Roedd cynnwys bocs rhif 9 yn amherthnasol .

Llofnodwyd y Datganiad Llywodraethol Blynyddol gan y Cadeirydd y Cyng Huw V Williams a'r clerc.

Bydd Cyfrifon 2011/12 yn cael ei rhoi i Mr Lewis Jones Archwiliwr Mewnol y Cyngor er mwyn iddo wneud ei waith.

Following the above report members were given copies of a completed **Section 1 'The Statement of Accounts'** from the recently received Annual Return .The figures are all derived from the council's end of year accounts. They were also provided with copies of **Section 2 The Annual Governance Statement.**

An explanation of the content of the various boxes in Section 1 was given by the clerk. Following a discussion and questions from members the council unanimously approved the detail contained in Section 1.

The Chairman and the clerk as the Responsible Financial Officer confirmed and signed the statements of accounts declaration and approval of the document by the council.

**The content of boxes 1-9 in section 2 of The Annual Governance Statement** was then read out in full by the clerk . The council confirmed that all matters raised in the questionnaire in section 2 were being fulfilled and answered YES to the criteria given in the individual statement in boxes 1-8. In relation to box 9 the council agreed that the criteria was not applicable

The chairman and the clerk signed the Annual Governance Statement for the year end 31/3/2012 on behalf of the council

The council's 2011/12 complete financial accounts will be forwarded to the councils internal auditor Mr Lewis Jones for examination .

The council agreed that the notice of appointment of date to exercise electors rights should be displayed for 14 days in the council's 3 notice boards during the period specified by the external auditors. The records will then be made available for examination.

The annual return and supporting documents will then be sent to BDO Stoy the council's external examiners in time to meet the allocated date.

## **6.0 Co-option of Community Council Member**

Yn dilyn yr etholiad roedd angen llenwi un sedd wag i gael y rhif priodol o gynghorwyr ar y cyngor cymuned / following the election the council needed to fill one empty seat to provide the appropriate number of councillors on the council .

Cynigodd y Cyng R Newell Mrs Jennifer Youens , Foxleigh, Mynyddcerrig i fod yn aelod o'r cyngor. Eiliwyd Mrs Youens gan y Cyng R Owen . Ni dderbyniwyd unrhyw enw arall. Cytunodd y cyngor yn unfrydol i ddebyn Mrs

Youens fel cynghorwraig. Gofynnwyd l'r clerch ysgrifennu yn swyddogol at Mrs Youens. /

It was proposed by Cllr R Newell that Mrs Jennifer Youens, Foxleigh, Mynyddcerrig should be co-opted as a member, this was seconded by Cllr Roy Owen.

No other nomination was received. The council unanimously agreed to Co-opt Mrs Youens as a councillor.

The clerk was asked to formally write to her.

## **7.0 Un Llais Cymru**

**Ni ddebyniwyd unrhyw lythyr / No corespondence received**

## **8.0 Help ariannol i fudiadau Lleol / Financial assistance to local organisations.**

Penderfynnodd y cyngor rhoi :- / The council decided to give :-

Neuadd Llanddarog £450

Neuadd Porthyrhyd £450

Mynyddcerrig Welfare £450

Sioe Llanddarog £200

## **9.0 Cynllunio / Planning**

### **Ceisiadau/ Applications**

**W/26421 Demolition of existing Farmhouse, rebuild new House and residence in Caravan whilst house is being built at Safle Cwmper, Porthyrhyd.**

**Roedd yr uchod tu allan l ffiniau'r cyngor/ The above was outside the councils boundary.**

## **10.0 Taliadau./ Payments**

**Un Llais Cymru £136**

**Jeff tipper hire £24**

**MCG £70 and £60**

**Murain £10**

**Fred Tripp Trophies £18.90**

### **Derbyniadau / Received**

**£1002.97 Inland Revenue Vat re-claim**

**£4963.00 Precept**

## **11.0 Cynllun Datblygu Lleol / Unitory Development Plan –**

( Following on from item 4(2) above yn dilyn mlaen o item 4 (2) uchod –

**Ymgynghori ynghylch y safleoedd Amgen (sylwadau ar ddyrannu Safleoedd) /Local Development Plan Alternative sites (site allocation Representations) consultation.**

The council had received a Cd from the council indicating the submitted Alternative sites . The council were shown the areas of land submitted for inclusion on the LDP by landowners within the Community. After close examination of the submitted sites the council unanimously felt that the total area of land submitted for inclusion was totally out of proportion with the needs of the community area . The majority of land had been submitted by land owners in the Villages of Llanddarog and Porthyrhyd with only 2 small sites in Mynyddcerrig.

The council felt that If all sites were to be allowed for development it would completely change the character and culture of Porthyrhyd and Llanddarog. Members decided that the council should object to ALL the new submissions for inclusions and to seek expert advice on a the reply to be given to the County Council. The clerk was also asked to place a notice with the submitted sites in the Porthyrhyd and Llanddarog notice Boards so that the public could see the location of the sites and the amount of sites involved.

In view of the limited time scale (comments by 8<sup>th</sup> June )it was agreed that the clerk should contact a suitable planning adviser to request an estimate for the work and to discuss the estimate with the sub committee and the internal financial examiner.

If the estimate was acceptable it was agreed that the planning adviser chosen should be appointed and requested to submit his report as soon as possible before the 8<sup>th</sup> June to the County Council.

It was also agreed that following expert advice the sub committee should be provided with a copy of his report for comment.

The full council would receive the report at their next meeting on the 13<sup>th</sup> June 2012

## **12.0 UFE /AOB**

Gofynnodd y Cyng Vilna Thomas am eglurhad am drefn a dyddiad Gwasanaeth y Gymuned yn y dyfodol. Dywedodd bod dyddiad presennol y gwasanaeth yn debygol yn y dyfodol i fod cyn i'r cadeirydd gael ei ethol gan y cyngor yn y Cyfarfod Blynyddol. Awgrymodd y efallai y byddai'n well newid dyddiad y gwasanaeth i'r ail ddydd Sul yn Mehefin.

Gofynnodd y cyngor i'r Cadeirydd ar Is Gadeirydd i drafod y mater gyda'r ddau Gapel a'r Eglwys. / Cllr V Thomas sought clarification on the future arrangement and date of the Community Service . She informed that if the date continued as it was there could be a situation in some years where by the Chairman would not have been appointed by the 2<sup>nd</sup> Sunday in May.

She advised that it may be better if the service was put forward to the 2<sup>nd</sup> Sunday in June.

The council requested that Chairman and Vice Chairman should consult with the Church and Chapels in the area to seek their views.

***Daeth y cyfarfod i ben am 9.30. /The meeting finished at 9.30 pm.  
Bydd y cyfarfod nesaf ar y 13/6/12 am 7.30pm / The next meeting will be held on the 13/6/12- at 7-30 pm.***



